5

# Dewisiadau Rhentu

## Prydlesu neu osod eich eiddo drwy Gymdeithas Dai/ Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Nod Cymdeithasau Tai/ Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yw cynyddu nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu. Mae gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig brofiad o osod eiddo a gall fod diddordeb ganddynt yn prydlesu eiddo neu reoli'r gwaith o osod eiddo yn y sector cyhoeddus. Gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gynnig cymorth proffesiynol i unrhyw landlord sector preifat. Gallai fod o gymorth penodol i:

- **Landlordiaid newydd**
- **Landlordiaid Prynu i osod**
- **Perchnogion sydd wedi etifeddu cartrefi**
- **Landlordiaid Absennol ac ati**

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig nid er elw a chânt eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig canlynol yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

**Cymdeithas Tai Wales and West**
www.wwha.co.uk

**Cymdeithas Tai Newydd**
www.newydd.co.uk

**Cymdeithas Tai Unedig Cymru**
http://emptyhomeswales.co.uk

**Cymdeithas Tai Hafod (Prydlesu a Gosod Cartrefi Hafod)**
www.hafod.org.uk

## Cymdeithas Tai Hafod (Prydlesu a Gosod Cartrefi Hafod)

www.hafod.org.uk 0800 0248968

**Prydlesu** – Rhent wedi'i warantu am hyd at 3 blynedd, hyd yn oes pan fo'r eiddo'n wag; dim cyfrifoldeb rheoli, telir am waith atgyweirio dydd i ddydd.

**Gosod** – Gwerthusiad am ddim o'r farchnad, tîm achredig profiadol, rheolaeth lawn neu ganfod tenant yn unig.

**Amdanom ni:**

Mae gennym dros 50 mlynedd o brofiad o reoli eiddo a thenantiaethau. Gallwn gynnig gwasanaeth cynhwysfawr i chi a sicrwydd ein bod yn rhan o Gymdeithas Tai Hafod sy'n rheoli mwy na 4500 o gartrefi. Rydym yn drwyddedig o dan gynllun Rhentu Doeth Cymru, fel nad oes rhaid i chi fod. Mae dal angen i chi gofrestru fel landlord preifat.

***Ar hyn o bryd rydym yn cynnig y gwasanaethau canlynol i Landlordiaid Preifat:***

- **Cynllun gosod cymdeithasol**
- **Asiant Gosod**
- **Llety a gwasanaethau prydlesu i'r digartref**
- **Rhanberchnogaeth**
- **Cynllun Ffoaduriaid Syria**

## Cymdeithas Tai United Welsh

http://emptyhomeswales.co.uk

02920 858140

**Cartrefi Gwag Cymru** – gallu ariannu a gwneud y gwaith i'ch eiddo drwy gynllun prydlesu.

Byddwn yn prydlesu'r eiddo gennych chi ac yn rheoli'r denantiaeth gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw

Defnyddir yr incwm rhent a dderbynnir yn ystod tymor y brydles i dalu costau'r gwaith.

Ar ôl derbyn cost y gwaith, gallwn barhau i rentu'r eiddo ar eich rhan os dymunwch. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi'r incwm rhent i chi gan dynnu ein ffi reoli.

Pecyn Rheoli Tenantiaeth: Unwaith y bydd eich eiddo yn barod i'w osod, byddwn yn rheoli'r Broses i gyd.

## Cymdeithas Tai Newydd

www.newydd.co.uk

0303 040 1998

**Amdanom ni:** Rydym yn landlord cyfrifol sydd â mwy na 40 mlynedd o brofiad yn y sector tai. Ar hyn o bryd rydym yn rheoli bron 3,000 o gartrefi i'w rhentu a'u gwerthu ar draws De a Chanolbarth Cymru.

**Ein gweledigaeth:** Darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd a chefnogi cymunedau cynaliadwy gan ddarparu gwasanaethau gwych i'n tenantiaid a'n cwsmeriaid.

**Yr hyn y gallwn ei gynnig:** Mae gennym y profiad a'r arbenigedd i gynnig amrywiaeth o wasanaethau i berchnogion cartrefi gwag, gan gynnwys dod o hyd i denant a gwasanaeth rheoli llawn. Os bydd eich eiddo angen unrhyw waith adnewyddu, boed yn waith addurno neu waith mwy sylweddol, gallem eich cynorthwyo chi â'r broses hon i ddod o hyd i dendrau cystadleuol, rheoli'r gwaith, prydlesu'r eiddo gennych chi a'ch helpu chi i wneud ceisiadau am unrhyw fenthyciadau a all fod ar gael.

# Dewisiadau Tai a Rhent drwy Gyngor Bro Morgannwg

Nod Cyngor Bro Morgannwg yw sicrhau bod gan breswylwyr yn y Fro fynediad at y dewisiadau tai mwyaf addas sydd ar gael iddynt, yn ogystal â gwybodaeth amdanynt. Mae'r Cyngor yn cynnig gwybodaeth am rentu preifat a Chynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro, rhentu cymdeithasol drwy'r Cyngor a Chymdeithasau Tai partner (HOMES4U), tai fforddiadwy a'r cynllun perchnogaeth cost isel.

## Cynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro

Mae'r tîm Atebion Tai wedi meithrin perthynas gref â rhai landlordiaid rhentu preifat dros y blynyddoedd, ac mae landlordiaid bellach yn galw'r adran yn uniongyrchol pan fo ganddynt eiddo ar gael i'w rentu. Mae yna restr gynhwysfawr o gleientiaid yn aros am eiddo fforddiadwy, ac mae landlordiaid sy'n chwilio am denantiaid hirdymor ar gyfer eu heiddo preifat yn cysylltu â'r Swyddog Caffael Sector Rhent Preifat a leolir yn y tîm Atebion Tai. Yna gall y tîm nodi tenantiaid addas i fynd i weld yr eiddo.

Mae gan dîm Atebion Tai Bro Morgannwg becynnau landlordiaid ar gael sydd llawn gwybodaeth am Gynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro (VATS) a'r gwasanaeth y gall y tîm ei ddarparu. Mae'r cynllun VATS yn ceisio cynorthwyo cleientiaid sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd gan roi cymorth ariannol iddynt sicrhau eiddo rhentu preifat, drwy efallai ddarparu rhent ar gyfer y mis cyntaf ymlaen llaw a / neu dystysgrif gwarant bond.

I ofyn am becyn landlordiaid,
anfonwch e-bost **VATS@valeofglamorgan.gov.uk.**
Fel arall, gallwch ffonio **01446 709302**
i ofyn i gael un wedi'i bostio i chi.

**Cymerwch olwg**

*I wirio a yw asiantaeth yn Drwyddedig drwy Rhentu Doeth Cymru, ewch i : www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/check-register*

# Rhentu eich eiddo drwy asiantaeth gosod tai preifat

**Pa wasanaethau all asiantaeth gosod tai eu darparu?**

- Eich cynghori ar lefelau rhent;
- Dod o hyd i denantiaid a gwirio geirdaon;
- Casglu rhent a chadw'r arian mewn cyfrif cleient ar wahân a darparu datganiad misol;
- Trefnu gwiriadau diogelwch cyfleustodau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd;
- Trefnu archwiliadau rheolaidd o'r eiddo;
- Ymdrin â'r holl waith papur cyfreithiol a gweinyddol rhwng y tenant a'r landlord.

Mae ffioedd yn amrywio rhwng bob asiantaeth, ond fel arfer maent yn codi rhwng 10% a 15% o'r incwm rhent (gan gynnwys TAW). Fel landlord, chi fyddai'n gyfrifol am yswirio'r adeilad ac am waith atgyweirio a chynnal a chadw sylweddol.

# Sut ydw i'n penderfynu pa asiantaeth gosod tai i'w defnyddio?

Ceir nifer o asiantaethau gosod tai ym Mro Morgannwg sy'n gallu eich cynorthwyo chi i osod a rheoli tenantiaeth rhentu preifat. Nid oes gan Gyngor Bro Morgannwg unrhyw gysylltiad ag unrhyw asiantaethau gosod tai preifat. Bydd asiantaethau gosod tai sydd wedi cofrestru â chynllun megis Rhentu Doeth Cymru, y Cynllun Gosod Tai Cymeradwy Cenedlaethol (NALS) neu'r Gymdeithas Asiantaethau Gosod Tai Preswyl (ARLA) yn darparu safonau proffesiynol o wasanaeth i'r landlord a'r tenant. Fe'ch cynghorir bob amser i wirio a yw'r asiantaeth gosod tai wedi cofrestru ag unrhyw un o'r rhain a chynlluniau perthnasol eraill.

I wirio a yw asiantaeth yn Drwyddedig drwy Rhentu Doeth Cymru, ewch i **www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym** a theipio enw'r Asiantaeth.

*Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt asiantaethau gosod tai ar y gwefannau canlynol*

**Y Cynllun Gosod Tai Cymeradwy Cenedlaethol (NALS)** **www.nalscheme.co.uk**

**Y Gymdeithas Asiantaethau Gosod Tai Preswyl (Marc eiddo ARLA)** **www.arla.co.uk**